DOGFEN BWYSIG I'W GADW'N DDIOGEL AR GYFER ARGYFYNGAU

CYMDEITHAS
TAI CLWYD

Eich Cartref

Llawlyfr i ofalu am eich cartref

Os hoffech chi'r ddogfen yma mewn fformat gwahanol,
er engraifft print bras, cysylltwch â ni.

54 STRYD Y DYFFRYN
DINBYCH
SIR DDINBYCH
LL16 3BW
☎ 0845 230 3140
🖹 0870 458 5994
cynnalachadw@taiclwyd.com
www.taiclwyd.com

UNED 8, GWEITHDAI PENLLYN
HEOL ARAN
Y BALA
GWYNEDD, LL23 7SP
☎ 0845 230 3150
🖹 0870 458 5996
bala@taiclwyd.com
www.taiclwyd.com

Cynnwys

Gwaith Trwsio	Tudalen
Pwy sy'n gyfrifol am drwsio'r nam?	3
Pa mor sydyn fydd y nam yn cael ei drwsio?	
Argyfwng	4
Brys	4
Cyffredin	5

Canllawiau Ymarferol Gofalu am eich Cartref

Rhan 1 :	Gwasanaethau Hanfodol	
	Trydan	6
	Dŵr	7
	Nwy	7
Rhan 2:	Gwresogi eich Cartref	
	Systemau Gwres Canolog	8
	Gwresogi Trydanol	9
	Simneiau a Ffliwiau	10
	Offer Nwy Sefydlog heb Ffliw	10
Rhan 3:	Addasiadau ac Estyniadau	
	Addasiadau ac Estyniadau Strwythurol	11
	Gwaith Trydanol	11
	Gwaith Nwy	11
Rhan 4:	Eich Atig	
	Strwythur	11
	Storio	11
	Awyru	11
Rhan 5:	Diogelwch yn y Cartref	
	Drysau Tân	12
	Datguddwyr Mŵg	12
	Trydan	12
	Nwy	12
	Awyryddion Hylosgi	13
	System Storio Dŵr Poeth heb ei Awyrellu	13
	Defnyddio Ysgol	13
	Goleuadau	13
	Cysylltu Peiriannau	14
	Gorchudd Addurniedig "Artex"	14

Ar derfyn tenantiaeth, dylid dychwelyd yr eiddo yn
LÂN A THACLUS
Os bydd dodrefn, carpedi, neu ysbwriel wedi ei adael neu ddifrod bwriadol wedi ei wneud i'r eiddo, byddwch yn derbyn anfoneb am y difrod a'r gwaith clirio.

Pwy sy'n trwsio'r nam?

Os oes rhywbeth wedi torri neu ddim yn gweithio, edrychwch drwy'r tabl i weld cyfrifoldeb pwy yw trwsio neu adnewyddu'r eitem dan sylw. Os mai cyfrifoldeb y Gymdeithas ydyw, yna cysylltwch â ni drwy ysgrifennu, e-bostio, ffonio neu alw i mewn i'r swyddfa. Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad a rhif ffôn lle gallwn adael neges os bydd angen.

Eitemau y mae'r **Tenant** yn gyfrifol amdanynt:

- Erial a/neu loeren deledu, gwifrau a socedau
- Goriadau wedi eu colli neu eu difrodi yn fwriadol
- Difrod bwriadol i ddrysau mewnol ac allanol
- Difrod bwriadol i baen gwydr mewn ffenestr neu ddrws
- Difrod bwriadol i adeiladwaith mewnol neu allanol yr eiddo
- Torri gwaelod drws ar gyfer gosod carped
- Addurno tu mewn i'r eiddo
- Gorchudd lloriau wedi eu gosod gan denant
- Plygiau trydan, ffiws, bylbiau golau mewnol ac allanol, tiwbiau fflworoleuo a'u tanwyr
- Newid batri y datguddwyr mwg a'u harchwilio yn rheolaidd
- Gosod a chynnal peiriannau golchi, sychwyr, rhewgelloedd, oergelloedd, poptai ac offer trydan arall y mae'r tenant yn berchen arnynt
- Glanhau simdde yn rheolaidd
- Leiniau dillad yn cynnwys lein ddillad gylchdro (Tai unigol yn unig)
- Gerddi a gwrychoedd
- Glanhau gwteri dŵr glaw a sinc y gegin
- Sedd toiled

Eitemau y mae **Cymdeithas Tai Clwyd** yn gyfrifol amdanynt:

- Erial deledu cymunedol a dysglau lloeren
- To, llechi a theils
- Simdde a'r potiau
- Gwaith brics a'r plastr allanol
- Gwaith coed allanol i'r to
- Trwsio gwteri a phibellau dŵr glaw
- Pibellau gwastraff a dŵr budr
- Twll archwilio, gyliau a draeniau wedi blocio a thoiledau.
- Waliau a ffens derfyn
- Llwybrau at y drws ffrynt a'r drws cefn
- Drysau mewnol ac allanol
- Offer drysau – mewnol ac allanol
- Ffenestri a gwydr
- Ardaloedd cymunedol
- Garej os ynghlwm i'r eiddo
- Peintio allanol ac ardaloedd cyhoeddus
- Gwaith plastro
- Lloriau, sgyrtin, pendrawst a grisiau
- Trwsio teils llawr sydd wedi eu gosod gan C.T.C
- Baddonau, basn, toiled, sinc, cawod, unedau cegin
- Gwaith plymwr, gwresogi ac offer trydan sydd wedi eu gosod gan C.T.C
- Basged dân, frets, bariau, cheeks a.y.b. – un ar gael unwaith y flwyddyn os bydd angen
- Offer tân, datguddwyr mwg system panel
- Yswirio yr adeilad.

Os yw'r nam yn gyfrifoldeb y Gymdeithas, bydd rhaid cysylltu â ni. Bydd y gwaith yn cael ei gategoreiddio fel argyfwng, brys neu cyffredin yn dibynnu ar y math o nam. Ar y tudalenau nesaf mae disgrifiad o'r mathau o nam, ynghyd ag amseroedd targed i gwblhau'r gwaith.

Pwysig:

RYDYM YN EICH CYNGHORI YN GRYF EICH BOD YN SICRHAU POLISI YSWIRIO CYNNWYS YR EIDDO

Ni all Cymdeithas Tai Clwyd eich digolledu am unrhyw ddifrod i'ch eiddo.

ARGYFWNG

o fewn 24 awr

DYLID DIFFINIO GWAITH TRWSIO FEL ARGYFWNG PAN FO:

- Peryg i iechyd y tenant
- Peryg i ddiogelwch tenantiaid
- Peryg o ddifrod difrifol i'r adeilad
- Peryg o ddifrod difrifol i eiddo'r tenant
- Peryg o golledion i eiddo'r tenant, yn cynnwys colledion trwy ladrad

Adeiladwr

- Clo wedi torri - effeithio ar ddiogelwch
- Ffenestri wedi torri - eu gwneud yn saff a'u bordio i fyny
- Wal wedi dymchwel
- Twll archwilio (manhole) wedi torri - ei wneud yn saff
- Prif gyflenwad draen, pibell fawr neu doiled wedi blocio

Plymiwr

- Colled llwyr o ddŵr - adfer
- Prif gyflenwad dŵr wedi byrstio - diogelu, adfer
- Llifogydd - diogelu
- Colled o gyflenwad nwy
- Nwy yn gollwng - diogelu
- Colled rhannol o wres / dŵr poeth rhwng Hydref ac Ebrill
- Colled rhannol o wres / dŵr ar gyfer tenantiaid hŷn neu fregus rhwng Mai a Medi

Trydanwr

- Nam trydanol difrifol - diogelu
- Colled llwyr o drydan - adfer
- Colled rhannol o wres / dŵr poeth rhwng Hydref ac Ebrill
- Gosodiaidau trydan anniogel

BRYS

o fewn 5 diwrnod gwaith

DYLID DIFFINIO GWAITH TRWSIO YN FRYS BLE:

- Mae cyfleustra neu gyfforddusrwydd y tenant wedi'i effeithio'n ddifrifol
- Mae peryg difrifol i'r adeilad, yn cynnwys colled trwy ladrad
- Bydd yr adfaeliad yn creu costau i'r preswylydd

Adeiladwr

- Ail osod gwydr wedi malu mewn ffenestr / drws
- Canllaw grisiau / rheiliau wedi malu
- Clo newydd os yn effeithio ar ddiogelwch

Plymiwr

- Colled rhannol o gyflenwad dŵr
- Colled llwyr o olau cymunedol
- Colled gwres / dŵr poeth rhwng Mai a Medi
- Gorlifo o doiledau neu danciau
- Flysh y sistern toiled ddim yn gweithio
- Dŵr yn gollwng rhyw ychydig yn yr eiddo
- Colled rhannol o wres / dŵr poeth rhwng Mai a Medi

Trydanwr

- Ffan echdynnu *(extractor fan)* ddiffygiol
- System agor drws ddim yn gweithio
- Daliwr bylbiau diffygiol
- Gwresogyddion neu wresogydd dŵr ddim yn gweithio rhwng Mai a Medi
- Colled rhannol o wres / dŵr poeth rhwng Ebrill a Hydref

CYFFREDIN

o fewn 28 diwrnod

DYLID DIFFINIO GWAITH TRWSIO YN GYFFREDIN LLE:

- Nad yw'r nam yn disgyn o fewn y categoriau Argyfwng neu Frys
- Gellir aros am amser byr cyn delio â'r nam
- Gall y gwaith, yn rhesymol ac effeithlon, gael ei grwpio gyda gwaith cynnal a chadw arall neu gellir ei ymgorffori i'r rhaglen gynlluniedig o fewn amserlen resymol

Adeiladwr

- Gwteri wedi blocio neu yn gollwng
- Cwrs gwrthleithder
- Trwsio to
- Unedau cegin neu ymolchfa newydd
- Adnewyddu drysau neu fframiau ffenestri
- Gosod llwybrau concrid
- Adnewyddu llwybrau anwastad
- Ailosod gorchudd twll archwilio
- Gosod giât newydd
- Trwsio ffens gardd
- Trwsio gwaith brics, simnai, bargodion a chribau

Plymiwr

- Mân atgyweiriadau plymio
- Tapiau yn diferu
- Gwaith a all gael ei grwpio'n rhesymol

Trydanwr

- Mân atgyweiriadau
- Gwaith a all gael ei grwpio'n rhesymol

Cysylltu â ni i gofnodi nam

- I adrodd am waith cynnal a chadw yn ystod oriau swyddfa, ffoniwch 0845 230 3140
- I adrodd am waith cynnal a chadw mewn argyfwng, y tu allan i oriau swyddfa, ffoniwch 0845 230 3140
- Galwch i mewn i'n swyddfeydd yn Ninbych neu'r Bala yn ystod oriau agor:
  Dydd Llun – Dydd Iau 9.00 y.b. – 4.30 y.p.
  Dydd Gwener 9.00 y.b. – 4.00 y.p.
- Cysylltwch â ni trwy'r safle wê neu e-bostiwch - cynnalachadw@taiclwyd.com

Canllawiau ymarferol gofalu am eich cartref

RHAN 1: Gwasanaethau Hanfodol

TRYDAN

Yn arferol daw'r cyflenwad trydan drwy gebl tanddaearol wedi'i gysylltu gyda'ch mesurydd trydan. Mae ceblau o'r mesurydd wedi'u cysylltu gyda'ch uned defnyddiwr.

Mae'r uned defnyddiwr yn cynnwys y prif swits ymlaen/diffodd a nifer o dorwyr cylched mini sy'n diogelu cylchedau unigol. Darperir torwyr cylched mini i ddatgysylltu'r cyflenwad trydan yn awtomatig os yw un o'r cylchedau'n cael ei orlwytho ynteu os oes nam. Gellir eu hailosod drwy ddychwelyd y swits i'r safle 'ymlaen'.



Yn ychwanegol mae'n bosibl bod dyfais cerrynt gweddillol sy'n darparu amddiffyniad ychwanegol rhag sioc drydanol, yn enwedig ar gyfer peiriannau a ddefnyddir y tu allan i'r cartref. Gellir ailosod dyfais o'r fath sydd wedi 'tripio' drwy ddychwelyd y swits i'r safle 'ymlaen'. Dylid gwirio bod y ddyfais yn gweithio'n iawn o dro i dro drwy bwyso'r botwm 'prawf'.

Y Uned Defnyddiwr:
A = Prif swits ymlaen / diffodd
B = Torwyr Cylched
C = Dyfais Cerrynt Gweddillol

Os yw torrwr cylched mini neu ddyfais cerrynt gweddillol yn tripio yn fynych gall hyn fod yn arwydd o nam ar y peiriant neu'r offer. Dylech gysylltu gyda Cymdeithas Tai Clwyd i drefnu i drydanwr cymwys ymchwilio i achos y broblem. Peidiwch ag ailosod torrwr cylched mini neu ddyfais cerrynt gweddillol sy'n tripio o hyd.

Mae trydan yn cael ei ddosbarthu o amgylch eich cartref drwy gyfrwng ceblau, wedi eu cuddio yn y waliau a dan y lloriau fel arfer. Dylai'r adeiladwr fod wedi rhoi'r holl geblau nad ydynt wedi eu gwarchod gan bibell fetel yn y rhannau isod o'r wal:

- Yn fertigol uwchben neu islaw y soced neu'r swits mae'n ei gyflenwi.
- Yn llorweddol y naill ochr i'r soced neu'r swits.
- Yn llorweddol mewn band o fewn 150mm (6") i'r nenfwd.
- Yn fertigol mewn band o fewn 150mm (6") i gornel ystafell ymhob wal.

Gall ceblau fynd i unrhyw gyfeiriad uwchben nenfwd neu o dan y lloriau.

Cyn gosod dodrefn neu unrhyw beth arall ar y waliau, lloriau a nenfydau dylech wirio a oes unrhyw bibellau a cheblau ynghudd yno gan ddefnyddio canfyddwr priodol sydd ar gael o siopau deunyddiau 'DIY'.

DŴR

Darperir dŵr gan y cwmni dŵr drwy gyfrwng pibell danddaearol sy'n cynnwys stopfalf wrth ffin eich eiddo chi i'r cwmni dŵr ei ddefnyddio mewn argyfwng. Wrth i'r dŵr ddod i mewn i'ch cartref chi mae'r llif yn cael ei reoli gan y prif stopfalf, sy'n caniatáu i chi ddiffodd y cyflenwad mewn argyfwng ynteu ar gyfer gwaith cynnal a chadw.

Mae'n bwysig eich bod chi'n gwybod lle mae'r prif stopfalf.

Cysylltwch gyda ni os gwelwch yn dda os nad ydych chi'n gwybod lle mae eich stopfalf wedi'i leoli.

Pibellau gorlif a phibellau rhybudd

Os ydych chi'n sylwi ar ddŵr yn diferu neu'n llifo o bibell gorlif neu bibell rhybudd, dylech gysylltu gyda Cymdeithas Tai Clwyd ar unwaith. Gall fod yn arwydd fod angen sylw ar falf a weithredir gan arnofiwr mewn seston storio neu seston toiled, neu ar system storio dŵr poeth heb ei awyrellu.

Toiled

Rydym wedi labelu'r llun fel y gallwch, mewn achos o ddifrod, nodi'n glir i'r Gymdeithas pa ddarn(au) sydd angen eu trwsio (Cofiwch mai chi fel tenant sydd yn gyfrifol am sedd y toiled).

NWY

Daw nwy i'ch cartref chi drwy gyfrwng pibell gwasanaeth sy'n terfynu wrth y falf rheoli wrth y mesurydd.

Gan amlaf mae'r mesurydd nwy y tu allan i'r adeilad: un ai ar y wal ynteu wedi'i gladdu'n rhannol yn y ddaear.

Dosberthir nwy i'r bwyler gwres canolog ac offer nwy eraill drwy'r pibellau, a all fod wedi'u cuddio yn y waliau a'r lloriau.

Dylai'r gwaith o osod a thrwsio offer nwy gael ei wneud gan beiriannydd sy'n gofrestredig gyda CORGI (Council of Registered Gas Installers) yn unig.

Cyn gosod unrhyw beth ar y waliau, lloriau neu'r nenfwd dylech wirio a oes pibellau a cheblau ynghudd yno gan ddefnyddio canfyddwr priodol.

RHAN 2: Gwresogi eich Cartref

SYSTEMAU GWRES CANOLOG

Mae llawer o gartrefi yn cynnwys system gwres canolog dŵr poeth, sy'n cynnwys bwyler a rheiddiaduron, pwmp a phanel rheoli. Mae dŵr sy'n cael ei wresogi gan y bwyler yn cael ei bwmpio o amgylch y rheiddiaduron drwy bibellau sydd, gan amlaf, wedi'u cuddio dan y lloriau ac yn y waliau.

Panel Rheoli'r Bwyler
A = Golau peilot
B = Rheolydd Tymheredd Dŵr
C = Medrydd Gwasgedd

Cyn gosod unrhyw beth ar y waliau, lloriau neu'r nenfwd dylech wirio a oes pibellau a cheblau ynghudd yno gan ddefnyddio canfyddwr priodol.

Yn achos systemau gwres canolog gyda sylindr dŵr poeth, mae dŵr sy'n cael ei wresogi gan y bwyler yn cael ei gylchdroi drwy goil i wresogi'r dŵr yn y sylindr. Yna mae dŵr poeth o'r sylindr yn cael ei ddosbarthu i'r tapiau dŵr poeth o amgylch y cartref. Fel arfer mae tymheredd y dŵr poeth o'r tapiau yn cael ei osod drwy osod thermostat y sylindr.

Darperir rhaglennydd i switsio'r gwres ymlaen a'i ddiffodd, a dylech newid hyn i weddu i'ch gofynion chi. Yn ystod cyfnodau o dywydd oer gall fod yn angenrheidiol gadael y gwres ymlaen am gyfnodau hirach na phan fo'r tywydd yn fwyn. Fel arfer darperir thermostat ystafell a/neu falfiau thermostatig ar y rheiddiaduron i reoli tymheredd ystafelloedd unigol.

Yn achos systemau gwres canolog gyda bwyler cyfunol, nid oes sylindr dŵr poeth. Mae dŵr o'r prif bibell yn cael ei wresogi'n uniongyrchol yn y bwyler a'i ddosbarthu i'r tapiau dŵr poeth o amgylch y cartref. Bydd rheolydd ar y bwyler i osod tymheredd y dŵr poeth o'r tapiau.

Os ydych chi'n sylwi bod rheiddiaduron yn oerach ar y brig gall fod yn arwydd bod aer yn y system a bod angen rhyddhau'r aer o'r rheiddiadur.

Ailosod gwasgedd system gwres canolog seliedig

Mae gan rai systemau gwres canolog danc dŵr bychan (header tank), wedi'i leoli yn yr atig fel arfer. Nid yw'n ofynnol ailosod y gwasgedd gyda'r systemau hyn. Mae systemau gwres canolog eraill yn rhai 'seliedig' – nid oes tanc dŵr bach ond mae ganddynt declyn gwasgedd, un ai tu mewn i'r bwyler neu'n agos ato. Hefyd bydd medrydd gwasgedd wedi'i osod ar neu'n agos at y bwyler.

Os yw'r medrydd gwasgedd yn dangos bod gwasgedd y system wedi gostwng mae'n angenrheidiol ailosod gwasgedd y system. Dylai llyfr cyfarwyddiadau'r bwyler nodi'r gwasgedd cywir ar gyfer y system a rhoi cyfarwyddiadau sut i'w ailosod i'r lefel cywir.

Yn arferol mae dolen lenwi wrth ymyl y bwyler ar gyfer gwneud hyn. Er mwyn ailosod gwasgedd y system, rhowch y ddolen lenwi rhwng falfiau'r system wresogi a falf y bibell ddŵr. Agorwch y falf dŵr yn araf, gan wylio'r nodwydd ar y medrydd gwasgedd yn ofalus. Gadewch y falf dŵr ar agor nes bo'r medrydd yn dangos y gwasgedd cywir. Os ydych chi'n codi lefel y gwasgedd yn rhy uchel gellir rhyddhau'r gwasgedd gormodol drwy ddefnyddio'r falf rhyddhau gwasgedd. Wedi i chi orffen, tynnwch y ddolen lenwi ymaith.

Sŵn yn y Tanciau / Pibellau
Os ydych yn clywed sŵn berwi yn dod o'r tanciau dŵr oer neu boeth, neu fod tymheredd y dŵr poeth i weld yn arbennig o boeth, gall hyn olygu fod nam perygl ar y system, felly cysylltwch â Tai Clwyd ac fe anfonwn blymiwr i gael golwg ar y system.

Rhyddhau aer o reiddiaduron

Os ydych chi'n sylwi bod rheiddiaduron yn oerach ar y brig gall fod yn arwydd bod aer yn y system a bod angen rhyddhau'r aer o'r rheiddiadur. Mae hyn yn gyffredin, yn enwedig mewn systemau newydd.

Er mwyn rhyddhau'r aer y cam cyntaf yw diffodd y gwres a gadael i'r system wresogi oeri. Rhowch yr allwedd rheiddiadur yn y falf rhyddhau aer a'i droi gwrth-glocwedd. Agorwch y falf yn ofalus iawn – gall ddod allan yn gyfangwbl. Dylech ei agor yn araf nes eich bod yn clywed sŵn hisian aer. Daliwch gadach o dan y falf i ddal y dŵr wedi i'r holl aer gael ei ryddhau. Pan fo dŵr yn dod allan, caewch y falf. Os nad oes ganddoch allwedd rheiddiadur maent ar gael o siopau calwededd neu siopau deunyddiau addurno.

Yn achos system gwresogi seliedig gall fod yn ofynnol ailosod gwasgedd y system ar ôl rhyddhau aer o reiddiadur.

GWRESOGI CARTREF GAN DDEFNYDDIO TRYDAN



Mae'r math mwyaf cost effeithiol o wresogi gan ddefnyddio trydan yn defnyddio cymysgedd o wresogyddion storio a gwresogyddion uniongyrchol.

Mae gwresogyddion storio yn cael eu pweru gan drydan rhad oriau anfrig. Mae'r gwres yn cael ei storio mewn blociau dwysedd uchel yn ystod y nos a'i ryddhau'n raddol yn ystod y dydd. Gall rheolyddion reoli tua 20 y cant o'r allbwn gwres drwy ganiatáu i beth o aer yr ystafell i basio dros y blociau poeth, sy'n creu cerrynt o aer cynnes. Mae hyn yn medru rhoi hwb i dymheredd yr ystafell gyda'r nos. Mae ffan mewn rhai modelau, wedi'i reoli gan thermostat ystafell.

Mewn system nodweddiadol gosodir gwresogyddion yn yr ystafell fyw, y gegin a'r cyntedd. Mae gwresogyddion uniongyrchol yn darparu gwres ymateb cyflym mewn ystafelloedd gwely ac yn yr ystafell ymolchi. Fel arfer mae tân pefrio wedi'i osod yn yr ystafell fyw hefyd i roi gwres ychwanegol a chreu naws cysurus. Mae'r holl wresogyddion uniongyrchol yn defnyddio trydan pris cyfradd llawn.

SIMNEIAU A FFLIWIAU



Efallai bod simne neu ffliw yn eich cartref chi. Mae'n hanfodol bwysig bod unrhyw beiriant gwresogi a ddefnyddir yn addas ar gyfer y math o simne neu ffliw yn eich cartref. Os ydych chi'n mynd i gael offer gwresogi wedi'i osod mae'n rhaid iddo fod yn addas ar gyfer y math o simne neu ffliw sydd gennych chi – bydd Cymdeithas Tai Clwyd yn gofyn i beiriannydd wedi'i gofrestru gydag un o'r cyrff isod am gyngor:

- **CORGI**

(Council of Registered Gas Installers) yn achos offer nwy.

- **Oftec**

(Oil Firing Technical Association for the Petrol Industry) yn achos offer sy'n defnyddio olew.

- **HETAS**

(Heating Equipment Testing and Approvals Scheme) ar gyfer offer sy'n defnyddio tanwydd solid.

Mae'n bwysig defnyddio'r offer yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

Simneiau

Dylid sgubo'r simne o leiaf unwaith y flwyddyn i atal tân yn y simne a'r risg o wenwyno gan nwyon carbon monocsid.

Terfynellau ffliw

Byddwch yn ofalus nad yw ffliwiau yn cael eu gorchuddio, eu blocio na'u haddasu mewn unrhyw fodd. Ni ddylent gael eu hamgau gan estyniad fel porth neu ystafell haul.

OFFER NWY SEFYDLOG HEB FFLIW

Gyda rhai gwresogyddion nwy modern nid os angen eu cysylltu gyda simne neu ffliw (offer nwy sefydlog heb ffliw). Mae'n bwysig defnyddio'r rhain yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Nid ydynt yn addas fel y prif ffynhonnell gwres.

Lle darperir awyryddion (ventilators), gan amlaf yn y wal neu'r llawr, ni ddylid eu gorchuddio. Maent yn cyflenwi aer i sicrhau bod offer gwresogi yn gweithio'n gywir. Gallai eu gorchuddio achosi crynhoad o nwyon peryglus.

RHAN 3: Addasiadau ac Estyniadau

ADDASIADAU AC ESTYNIADAU STRWYTHUROL

Cyn addasu eich cartref neu roi estyniad arno mae'n rhaid i chi gael caniatâd gan Gymdeithas Tai Clwyd.

Bydd yn ofynnol i unrhyw addasiad strwythurol neu estyniad i'ch cartref gydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu – a rhaid cael caniatâd ffurfiol gan eich awdurdod lleol ar gyfer hynny. Mae'n bosibl y bydd yn ofynnol cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio hefyd. Mae Rheoliadau Adeiladu a Chaniatâd Cynllunio yn wahanol, felly nid yw derbyn cymeradwyaeth ar gyfer un yn golygu cymeradwyaeth ar gyfer y llall.

Os nad ydych chi'n sicrhau'r caniatâd priodol gall y gwaith fod yn anghyfreithlon a gallech fod mewn sefyllfa o dorri amodau eich cytundeb tenantiaeth.

GWAITH TRYDANOL

Dylid cael trydanwr proffesiynol cofrestedig i gyflawni'r gwaith. Mae NICEIC (National Inspection Council for Electrical Installation Contracting) ac ECA (Electrical Contractors' Association) yn cadw cofrestr o gwmnïau cymeradwy.

GWAITH NWY

Dylai'r gwaith ar offer nwy yn eich cartref gael ei gyflawni gan beiriannydd wedi ei gofrestru gyda CORGI (Council of Registered Gas Installers) yn unig.

RHAN 4: Eich Atig

STRWYTHUR

Mae'r holl drawstiau yn y to yn angenrheidiol i gynnal y to ac ni ddylid eu torri na'u tynnu ymaith.

STORIO

Yn gyffredinol nid yw'r atig wedi'i fwriadu i'w defnyddio fel gwagle storio eitemau; mae'n debygol na chafodd strwythur y to ei ddylunio i dderbyn llwyth ychwanegol eitemau wedi'u storio a gallai deunydd inswleiddio'r atig atal mynediad diogel.

AWYRU

Darperir awyryddion i reoli cyddwysiad. Os oes awyryddion yn y bondo ni ddylid eu gorchuddio na'u blocio mewn unrhyw fodd.

RHAN 5: Diogelwch yn y Cartref

DRYSAU TÂN

Mae'n bosibl bod eich cartref yn cynnwys un neu ragor o ddrysau tân. Mae'r rhain yn drymach na drysau mewnol safonol ac yn cynnwys dyfais hunan-gau neu golfachau arbennig. Er eich diogelwch eich hun ni ddylech dynnu'r drysau ymaith na defnyddio unrhywbeth i'w cadw ar agor.

DATGUDDWYR MŴG

Dylech wneud yn siwr bod eich datguddiwr mŵg yn gweithio'n iawn yn wythnosol drwy bwyso'r botwm 'prawf'. Cysylltwch gyda Cymdeithas Tai Clwyd os ydych chi'n amau nad yw eich larwm mŵg yn gweithio.



Fe'ch cynghorir i ystyried sut y byddech yn dianc o'ch cartref petai tân. Dylech ystyried lle mae unrhyw oriadau sy'n hanfodol i sicrhau dianc yn cael eu cadw, a sicrhau eich bod yn gyfarwydd gyda sut i agor unrhyw ffenestri y gallai fod yn ofynnol i chi eu defnyddio i ddianc.

TRYDAN

Dylai unrhyw waith trydanol gael ei gyflawni gan drydanwr cymwys.
Gwnewch yn siwr eich bod yn canfod lleoliad ceblau gan ddefnyddio canfyddwr pwrpasol er mwyn osgoi achosi difrod iddynt os ydych yn gwneud gwaith 'DIY'.

Peidiwch ag ymyrryd efo ceblau bondio daearu sy'n gysylltiedig â phibellau, sinciau a rheiddiaduron ac ati. Fe'u darperir i sicrhau diogelwch.

Os yw torrwr cylched mini neu ddyfais cerrynt gweddillol yn 'tripio' dro ar ôl tro gallai fod yn arwydd o nam gyda'r peiriant/offer. Dylech gysylltu â Tai Clwyd a fydd yn ymchwilio i achos y broblem, peidiwch ag ailosod dyfais sy'n tripio'n fynych. Byddwch yn hynod o ofalus wrth ddefnyddio teclynnau garddio trydanol ac offer awyr agored. Gofalwch nad ydych yn difrodi'r fflecs.

Mae trydan yn beryglus a gall ladd.

NWY

Mae'n ofynnol i'r Gymdeithas wneud archwiliad bob blwyddyn ar foeleri a thannau nwy. Mae'r archwiliad yn cael ei gyflawni gan gontractwyr CORGI yn unol â gofynion Rheoliadau Diogelwch Nwy 1994.

Mae'n holl bwysig eich bod chi fel tenantiaid yn sicrhau bod ein contractwyr yn cael mynediad i'r eiddo er mwyn iddynt gyflawni'r archwiliad, er sicrhau eich diogelwch chi a diogelwch eich cymdogion.

Os ydych yn amau bod nwy yn gollwng:
1. Diffoddwch bob fflâm agored.
2. Diffoddwch y nwy wrth y mesurydd.
3. Agorwch bob drws a ffenestr.

4. Ffoniwch rif ffôn argyfwng y cwmni nwy, sydd yn y llyfr ffôn dan y pennawd ‘GAS’. Ni chodir tâl am alw peiriannydd allan dan yr amgylchiadau hyn.
5. Peidiwch â defnyddio’r switsys trydan – eu rhoi ymlaen na’u diffodd. Gall hyn achosi gwreichionyn a allai gynnau’r nwy.
6. Cysylltwch â Cymdeithas Tai Clwyd i adael i ni wybod mor fuan a phosib.

Dylai gwaith cynnal a chadw’r bwyler nwy, gosod tân nwy ac unrhyw addasiadau neu waith trwsio arall i’r system nwy gael ei gyflawni gan beiriannydd cofrestredig gyda CORGI yn unig.

AWYRYDDION HYLOSGI

Mewn ystafelloedd sy’n cynnwys simne neu ffliw neu danau nwy, olew neu danwydd solid penodol gellir cael awyryddion parhaol. Lle darperir awyryddion o’r fath (yn y wal ynteu yn y llawr gan amlaf) ni ddylid eu gorchuddio. Maent yn darparu aer i sicrhau bod y tân/teclyn yn gweithio’n gywir. Gallai eu gorchuddio achosi crynhoad o nwyon peryglus.

SYSTEM STORIO DŴR POETH HEB EI AWYRELLU

Mae systemau storio dŵr poeth heb ei awyrellu yn gweithredu dan wasgedd.

Peidiwch byth â cheisio gwasanaethu nac addasu system heb ei hawyrellu eich hun. Gallech achosi ffrwydrad.

DEFNYDDIO YSGOL

Pan fyddwch yn defnyddio ysgol mae’n bwysig ei bod yn cael ei chlymu wrth rywbeth sefydlog addas i’w hatal rhag llithro wrth gael ei defnyddio. Dylech weithio gydag un llaw yn gafael yn yr ysgol drwy’r amser, a pheidio â phwyso oddi wrth yr ysgol i gyrraedd mannau y naill ochr i’r ardal weithio.

Dylid gosod ysgol fel bo’r ysgol yn fertigol am bob 1.2 metr (4 troedfedd), gyda gwaelod yr ysgol 0.3 metr (1 droedfedd) oddi wrth y wal.

GOLEUADAU

Mae rhai cartrefi yn cynnwys ffitiadau golau sy’n derbyn bylbiau ynni effeithlon yn unig. Mae’n synhwyrol canfod pa fath o fylbiau sydd eu hangen arnoch a chadw rhai wrth gefn.



CYSYLLTU PEIRIANNAU

Byddwch yn ofalus iawn os ydych chi'n cysylltu peiriannau cegin i'r cyflenwad dŵr a'r system ddraenio. Gwiriwch bod y pibellau wedi eu cysylltu yn gywir cyn troi'r dŵr ymlaen. Mae'n syniad da gwirio'r cysylltiadau eto unwaith y bo'r peiriannau wedi cael eu defnyddio am ddiwrnod neu ddau – gall cysylltiadau sy'n diferu achosi difrod difrifol.

ARTEX
(Gorchudd Addurniedig i'r Nenfwd)

Mae'r Gymdeithas wedi cwblhau archwiliad cyflwr ar ei holl eiddo yn ddiweddar ac wedi nodi fod gorffeniad 'Artex' ar y nenfwd mewn rhai eiddo. Cynghorir tenantiaid i beidio ceisio tynnu neu dyllu trwy 'Artex' gan y gallai'r llwch o'r 'Artex' fod yn niweidiol i iechyd. Os ydych yn bwriadu tynnu'r 'Artex' neu ddrilio trwyddo, cysylltwch â Chymdeithas Tai Clwyd am gyngor.

Mae'n berffaith saff i chi beintio'r nenfwd gyda phaent emwlsiwn os ydych yn dymuno.